




# Yn yr Ardd

Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Roderick Hunt    Alex Brychta



Tylluanod



**DRAKE**



Aeth Onw i mewn i ystafell Dids

a chododd yr allwedd hud.

Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.

'O help!' meddai Onw.





Rhedodd Onw allan ac  
edrychodd am Cad a Dids.  
'Help!' galwodd.  
'Mae'r allwedd yn disgleirio.'

Roedd Cad a Dids yn chwarae gyda  
Wilff a Wilma.  
Roedden nhw'n chwarae yn y pwll tywod.  
'Edrychwch ar yr allwedd hud,' galwodd Onw.





Roedd Cad yn flin gydag Onw.  
'Dewch ymlaen, bawb,' bloeddiodd.  
'Rhedwch i mewn.  
Ewch i'r tŷ hud.'



Roedd yn rhy hwyr.  
Dechreuodd yr hud weithio.  
Aeth y plant yn llai  
ac yn llai.






Roedd y plant yn y glaswellt ac  
roedd popeth yn edrych yn fawr.  
Roedd y glaswellt fel jyngl.  
'Am flodau mawr!' meddai Onw.

Gwelodd Dids gacynen.  
Doedd e ddim yn ei hoffi a doedd  
e ddim yn hoffi'r jyngl.  
'Beth am adael y lle yma?' galwodd.






Daeth y plant allan o'r jyngl.  
Daethon nhw at fynydd.  
'Am fynydd mawr!' meddai Wilff.

Dechreuodd Dids ddringo.  
Roedd e am gyrraedd y brig.  
'Dewch ymlaen,' meddai.  
'Beth am inni ddringo?'






Cyrhaeddodd y plant y brig.  
Roedd Onw yn boeth.  
'Dydw i ddim yn hoffi dringo mynyddoedd,'  
meddai.

Edrychodd y plant ar y tywod.  
'Mae'n edrych fel anialwch,' meddai Cad.  
'Dewch inni fynd i lawr.'  
'O na!' meddai Onw.






'Edrychwch ar y car tegan,' meddai Wilma.  
'Beth am fynd iddo a gyrru i lawr?  
Gallwn yrru i lawr at yr anialwch.'




Wwwsh!  
Aeth y car â nhw i lawr y mynydd.  
'Mae hyn yn hwyl,' meddai Wilma.





Stopiodd y car yn y tywod.  
Dringodd y plant allan.  
'O na!' meddai Wilff.  
'Edrychwch ar y gath fawr yna.'



Dringodd y plant i mewn i botel.  
Roedd ofn ar Onw.  
'Dydw i ddim yn hoffi hyn,' meddai.





Edrychodd y gath i mewn i'r botel.  
Gwthiodd hi â'i phawen.  
'Cer o 'ma, gath,' gwaeddodd Onw.  
'Shw!' gwaeddodd pawb.



Cwrsodd Mwlsyn y gath i ffwrdd.  
Dringodd y plant allan  
o'r botel.  
'Da iawn, Mwlsyn!' meddai Cad.





Cerddon nhw dros yr anialwch.  
Teimlai pawb yn boeth.  
Teimlai pawb yn boeth iawn.  
'Rwy eisiau diod,' meddai Onw.



'Edrychwch!' meddai Wilff. 'Mefus enfawr!'  
Rhedodd y plant i'w bwyta nhw.  
'Rwy wrth fy modd gyda mefus,' meddai Dids.  
'A finnau,' meddai Wilff.





Bwytodd y plant y mefus.  
Tynnon nhw ddarnau mawr.  
Llyfodd Onw ei wefusau.  
'Rwy'n hoffi'r antur yma nawr,' meddai.



Dechreuodd fwrw glaw.  
'Am ddiferion mawr!' meddai Wilma.  
'Rwy'n teimlo'n sâl nawr,' meddai Onw.  
'A finnau,' meddai Dids.





Rhedodd y plant at bot blodau anferth.  
Cuddion nhw odano.  
Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.



Roedd yr hud ar ben.  
'Fedra i ddim gweld,' meddai Dids.  
Roedd ganddo'r pot blodau ar ei ben.  
'Rwy'n hoffi'r het,' meddai Wilma.





Edrychodd Dad ar ei fefus.

‘Wn i ddim,’ meddai.

‘Mae’n rhaid bod gw lithenni enfawr fan hyn.’



# 1 Yn yr Ardd



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Cam 6

Stori gan  
**Roderick Hunt**

Lluniau gan  
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan  
**Juli Paschalis**



## Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

## Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

## Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos  
Afalau Drwg  
Y Dywysoges a Allai Chwerthin  
Antur Nadolig  
Ras y Ceir Bach Gwyllt  
Yr Allwedd Sgleiniog

## Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd  
Y Bwli  
Chwilio am Aur  
Antur Chineaid  
Antur Rufeinig  
Y Jig-so

Tylluanod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987  
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999  
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-248-6



9 780861 742486

ISBN 0 86 174248 6

**DRAKE**